

Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Cwestiynau Cyffredin

Cwestiynau Cyffredin

- **Beth yw'r amserlen ar gyfer datrys hyn?**

Ein nod yw ailagor y cynllun ar 1 Medi. Ar ôl i'r cynllun gael ei ailagor, bydd gan AGC ôl-groniad o tua 50 o nanis nad ydynt wedi gallu adnewyddu eu cymeradwyaeth a bydd AGC yn dechrau gweithio drwy'r rhain ond bydd hyn yn cymryd amser. Caiff y ceisiadau adnewyddu eu blaenoriaethu yn y drefn ganlynol:

- Y rheini sydd am adnewyddu cyn i'w cymeradwyaeth o dan y cynllun ddod i ben;
 - Y rhai cyntaf a welodd eu cymeradwyaeth o dan y cynllun yn dod i ben;
 - Y gweddill a welodd eu cymeradwyaeth o dan y cynllun yn dod i ben;
 - Ceisiadau newydd.
- **Nid oeddwn wedi gallu adnewyddu fy nghymeradwyaeth rhwng mis Mawrth a mis Medi, beth sy'n digwydd nawr?**

Mae Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru wedi penderfynu y gall y nanis hyn adnewyddu eu haelodaeth yn hytrach na chyflwyno cais newydd, ar y ddealltwriaeth y byddai angen iddynt ailgofrestru pan fydd tair blynedd wedi mynd heibio ers eu cofrestriad gwreiddiol.

- **Bydd angen adnewyddu fy nghymeradwyaeth cyn bo hir, pa gamau y mae angen i mi eu cymryd?**

Os nad yw cymeradwyaeth nani wedi dod i ben a'i bod yn ddilys o hyd, bydd angen iddi gyflwyno cais yn y ffordd arferol pan fydd angen adnewyddu ei chymeradwyaeth. Os nad yw cymeradwyaeth nani wedi dod i ben, ni fydd unrhyw newid i'w sefyllfa.

- **Beth sy'n digwydd i'r cynllun presennol nawr, a fydd hyn yn digwydd eto?**

Yn gynharach eleni, cafodd Llywodraeth Cymru wybod fod cymhlethdod wedi codi mew perthynas â'r 'Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref', y cyfeirir ato weithiau fel y "Cynllun Nani", a gyflwynwyd yn 2007.

Cododd y cymhlethdod o ganlyniad i newid a wnaed i'r ddeddfwriaeth lywodraethu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. O ganlyniad i hynny, caewyd y cynllun tra bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) i ddeall goblygiadau llawn y newidiadau hyn ac ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn trafodaethau dwys pellach, mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM yn cytuno y bydd angen cynllun newydd i ddisodli cynllun 2007 yn y pen draw. Mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o sefydlu cynllun newydd. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM hefyd wedi ymrwymo i wneud y diwygiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU cyn gynted ag y bo'n ymarferol er mwyn rhoi cynllun newydd i Gymru ar waith.

- **Pryd fydd y cynllun newydd ar waith?**

Gobeithio y bydd y cynllun newydd ar waith ar ddechrau 2020. Ar ôl i'r cynllun newydd gael ei roi ar waith, bydd angen i bob nani gyflwyno cais newydd am gymeradwyaeth o dan y cynllun newydd ar yr adeg briodol.

- **Taliadau Ôl-weithredol**

Cynhaliwyd trafodaethau â'r Adran Gwaith a Phensiynau a CThEM ynglŷn â'r posibilrwydd o wneud taliadau ôl-weithredol mewn perthynas â'r teuluoedd hynny a allai fod wedi colli allan ar gonsesiynau treth neu fudd-daliadau o dan Gynllun 2007. Mae CThEM wedi cadarnhau nad yw'n fodlon ystyried gwneud taliadau ôl-weithredol o ganlyniad i gau'r cynllun.